OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 692 (Cy.104)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*8 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 7(1), 8(1), 15(4), 25, 32(2), 34(7), 83(2) ac 88(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011; mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 31 Mawrth 2011.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "anifail dan amheuaeth" ("*suspected animal*") yw anifail nad yw'n anifail buchol, yr amheuir yr effeithiwyd arno gan dwbercwlosis, ac y mae'n cynnwys anifail nad yw'n anifail buchol a fu mewn cysylltiad agos ag anifail o'r fath nad yw'n anifail buchol;

ystyr "anifail nad yw'n anifail buchol" ("*non-bovine animal*") yw carw, gafr, alpaca, gwanaco, lama neu ficwnia;

ystyr "anifail yr effeithiwyd arno" ("*affected animal*") yw anifail nad yw'n anifail buchol yr effeithiwyd arno gan deneuo twbercylaidd, neu sy'n ysgarthu neu'n gollwng deunydd

(**1**) 1981 p.22. Rhoddir ystyr "the Minister" yn adran 86(1). Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf yn arferadwy (o ran Cymru) gan Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

twbercylaidd, neu yr effeithiwyd arno gan beswch cronig, neu sy'n dangos unrhyw arwyddion clinigol eraill o dwbercwlosis;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n berchen neu sy'n gyfrifol am anifail nad yw'n anifail buchol, pa un ai ar sail barhaol neu dros dro, ond nid yw'n cynnwys person sy'n gyfrifol am anifail nad yw'n anifail buchol oherwydd, yn unig, bod y person hwnnw'n ei gludo;

ystyr "diheintydd cymeradwy" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yn erbyn twbercwlosis yn unol â Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Cymru) 2007(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981;

ystyr "hysbysiad gwella milfeddygol" ("*veterinary improvement notice*") yw hysbysiad a gyflwynir o dan erthygl 8 (hysbysiad gwella milfeddygol);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys—

(a) tir neu adeiladau; a

(b) unrhyw le arall gan gynnwys, yn benodol, cerbyd, llong, awyren, neu babell neu adeiledd symudol arall;

ystyr "prawf perthnasol" ("*relevant test*") yw prawf diagnostig ar gyfer twbercwlosis a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru; ac

ystyr "twbercwlosis" ("*tuberculosis*") yw heintiad â *Mycobacterium bovis (M. bovis).*

Dirymiadau a diwygiadau

3.—(1) Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru—

(a) Gorchymyn Twbercwlosis (Ceirw) 1989(**3**); a

(b) Gorchymyn Twbercwlosis (Ceirw) Hysbysiad o Gigydda Arfaethedig ac Iawndal 1989(**4**).

(2) Yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010(**5**)—

(a) yn erthygl 12(1) (profi ar gyfer twbercwlosis) rhodder "cyn" yn lle "erbyn"; a

(b) yn erthygl 22(1) (adnabod M. bovis mewn labordy) rhodder "hysbysu Gweinidogion Cymru" yn lle "hysbysu'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol".

Arbedion a phontio

4.—(1) Bydd unrhyw hysbysiad neu drwydded a ddyroddwyd, neu gymeradwyaeth neu ganiatâd a roddwyd, o dan Orchymyn Twbercwlosis (Ceirw) 1989 neu Orchymyn Twbercwlosis (Ceirw) Hysbysiad o Gigydda Arfaethedig ac Iawndal 1989 ac sy'n effeithiol pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, yn parhau mewn grym, fel pe bai'n hysbysiad neu drwydded a ddyroddwyd, neu'n gymeradwyaeth neu ganiatâd a roddwyd, o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynir o dan Orchymyn Twbercwlosis (Ceirw) Hysbysiad o Gigydda Arfaethedig ac Iawndal 1989 fel y mae'n gymwys i hysbysiad a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn.

(**2**) O.S. 2007/2803 (Cy.236).
(**3**) O.S. 1989/878.
(**4**) O.S. 1989/1316.
(**5**) O.S. 2010/1379 (Cy.122).

RHAN 2

Profi a Symud

Dull Adnabod

5. Rhaid i geidwad carw, alpaca, gwanaco, lama neu ficwnia ei farcio neu ei nodi mewn modd a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

Hysbysu am glefyd mewn anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol

6.—(1) Rhaid i unrhyw berson—

(a) sydd ag unrhyw anifail nad yw'n anifail buchol yn ei feddiant neu dan ei ofal, a'r person hwnnw'n amau bod yr anifail, neu y gallai fod, yn anifail yr effeithiwyd arno;

(b) sydd, yng nghwrs ymarfer y person hwnnw fel milfeddyg, yn archwilio anifail nad yw'n anifail buchol y mae'r person hwnnw'n amau ei fod, neu y gallai fod, yn anifail yr effeithiwyd arno; neu

(c) sydd, yng nghwrs dyletswyddau'r person hwnnw, yn archwilio, at unrhyw ddiben, anifail nad yw'n anifail buchol y mae'r person hwnnw'n amau ei fod, neu y gallai fod, yn anifail yr effeithiwyd arno,

hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith.

(2) Rhaid i unrhyw berson sydd ag unrhyw anifail nad yw'n anifail buchol yn ei feddiant neu dan ei ofal, a'r person hwnnw'n amau bod, neu y gallai fod, yr anifail yn anifail yr effeithiwyd arno, tra'n aros am gasgliad yr ymchwiliad milfeddygol o dan erthygl 7 ac am gyflwyno unrhyw hysbysiad o dan yr erthygl honno, weithredu ar unwaith i—

(a) cadw'r anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol yn y fangre lle y mae ar y pryd;

(b) ei ynysu oddi wrth anifeiliaid eraill, i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad; a

(c) mabwysiadu rhagofalon mewn perthynas â llaeth a gynhyrchir gan yr anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol, fel pe bai hysbysiad o dan erthygl 7 eisoes wedi ei gyflwyno.

Ymchwiliad milfeddygol i bresenoldeb clefyd

7.—(1) Pan fo arolygydd milfeddygol o'r farn yn rhesymol bod anifail yr effeithiwyd arno neu anifail dan amheuaeth (ac eithrio adweithydd), neu garcas anifail nad yw'n anifail buchol yr effeithiwyd arno neu yr amheuir yr effeithiwyd arno, gan dwbercwlosis, yn bresennol mewn unrhyw fangre, rhaid i'r arolygydd milfeddygol, mor fuan ag y bo'n ymarferol, gymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol i ganfod a yw'r anifail neu'r carcas mewn gwirionedd yn un yr effeithiwyd arno neu dan amheuaeth.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol, at ddibenion yr erthygl hon, archwilio unrhyw anifail nad yw'n anifail buchol, neu garcas anifail nad yw'n anifail buchol, sydd yn y fangre a chymryd pa bynnag samplau o unrhyw anifail nad yw'n anifail buchol neu garcas o'r fath, neu gyflawni pa bynnag brofion sy'n ofynnol at y diben o wneud diagnosis.

(3) Pan fo arolygydd milfeddygol wedi archwilio anifail nad yw'n anifail buchol, ac o'r farn ei fod yn anifail yr effeithiwyd arno neu'n anifail dan amheuaeth, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i geidwad yr anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y ceidwad—

(a) yn cadw'r anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol yn unol â gofynion yr hysbysiad a'i gadw wedi'i ynysu oddi wrth anifeiliaid eraill i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad;

(b) pan fo'n briodol, yn cymryd camau i sicrhau na chymysgir y llaeth a gynhyrchir gan yr anifail nad yw'n anifail buchol â llaeth arall, bod llaeth yr anifail yn cael ei ferwi neu'i

sterileiddio rywfodd arall, a bod unrhyw declyn y bu'r llaeth hwnnw mewn cysylltiad ag ef cyn ei drin felly yn cael ei lanhau'n drwyadl a'i sgaldio â stêm neu ddŵr berwedig cyn defnyddio'r teclyn hwnnw drachefn; ac

(c) yn sicrhau na symudir unrhyw anifail i'r fangre neu ba bynnag ran o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad, nac oddi arni, ac eithrio dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "adweithydd" ("*reactor*") yw anifail nad yw'n anifail buchol, sy'n adweithio i brawf perthnasol mewn modd sy'n gyson â bod twbercwlosis wedi effeithio arno.

Hysbysiad gwella milfeddygol

8.—(1) Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad gwella milfeddygol") ("*veterinary improvement notice*") i geidwad anifail nad yw'n anifail buchol, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y ceidwad, erbyn dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, yn gwneud pethau neu'n ymatal rhag gwneud pethau, at y diben o atal clefyd rhag lledaenu ac, yn benodol, caiff osod unrhyw un neu ragor o'r gofynion a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Mae'r gofynion y ceir eu gosod drwy gyfrwng hysbysiad gwella milfeddygol yn cynnwys—

(a) codi ffensys, clwydi a chamfeydd;

(b) mabwysiadu dulliau effeithiol o allgáu grwpiau o anifeiliaid o rannau penodedig o'r fangre;

(c) diogelu silwair, storfeydd bwydydd anifeiliaid a mannau bwydo rhag bywyd gwyllt, gan gynnwys adar;

(ch) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y bobl sy'n mynd ar dir y ceidwad yn cymryd rhagofalon rhesymol rhag lledaenu clefyd.

Profi ar gyfer twbercwlosis

9.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad prawf") ("*test notice*") i geidwad anifail nad yw'n anifail buchol, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y ceidwad yn sicrhau y profir unrhyw anifail o'r fath nad yw'n anifail buchol ar gyfer twbercwlosis drwy gyfrwng prawf perthnasol cyn dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i geidwad unrhyw anifail nad yw'n anifail buchol gydymffurfio â holl ofynion rhesymol arolygydd er mwyn hwyluso—

(a) adnabod ac archwilio'r anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol gan yr arolygydd;

(b) cyflawni, neu ddarllen, unrhyw brawf perthnasol ar yr anifail; neu

(c) symud yr anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol ar gyfer ei gigydda,

ac yn benodol, rhaid i'r ceidwad drefnu, ar gost y ceidwad ei hunan, i gasglu, corlannu a diogelu unrhyw anifail o'r fath nad yw'n anifail buchol os gofynnir iddo.

(3) Pan fo prawf perthnasol wedi'i gyflawni ar anifail nad yw'n anifail buchol, ni chaiff unrhyw berson symud yr anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol o'r fangre neu'r rhan o'r fangre lle y'i cedwir, ac eithrio—

(a) pan symudir yr anifail dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol; neu

(b) pan fo canlyniadau'r prawf wedi eu darllen gan arolygydd a'r canlyniadau hynny'n negyddol.

(4) Heb ragfarnu erthygl 12, os yw'r ceidwad wedi methu â chael profi anifail nad yw'n anifail buchol yn unol â gofyniad hysbysiad prawf, caiff Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â'r fangre lle cedwir yr anifail nad yw'n anifail buchol, drwy gyflwyno hysbysiad i'r ceidwad, wahardd symud anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol, neu'r cyfryw anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol a bennir yn yr hysbysiad, i'r fangre honno neu oddi arni, neu unrhyw ran o'r fangre honno fel a

bennir yn yr hysbysiad, yn ddarostyngedig i unrhyw symud a ganiateir o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan arolygydd.

(5) Heb ragfarnu unrhyw achos ynglŷn â thramgwydd o dan adran 73 o'r Ddeddf yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, pan fo ceidwad wedi methu â chael profi anifail nad yw'n anifail buchol yn unol â gofyniad hysbysiad prawf, caiff Gweinidogion Cymru gymryd, neu beri cymryd, pob un o'r camau a fydd yn angenrheidiol i hwyluso archwilio, profi, prisio a symud yr anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol, a chaiff Gweinidogion Cymru adennill, oddi wrth y ceidwad, swm unrhyw dreuliau a achosir iddynt yn rhesymol.

(6) Pan fo—

(a) y ceidwad wedi methu â chael profi anifail nad yw'n anifail buchol yn unol â gofyniad hysbysiad prawf; ac

(b) am y rhesymau a bennir ym mharagraff (7), yr anifail nad yw'n anifail buchol heb ei brofi yn unol â pharagraff (5),

rhaid trin yr anifail nad yw'n anifail buchol at ddibenion adran 32 o'r Ddeddf fel anifail yr effeithiwyd arno gan dwbercwlosis.

(7) Y rhesymau a grybwyllir ym mharagraff (6) yw rhesymau ymarferoldeb, gan gynnwys anawsterau o ran casglu'r anifail nad yw'n anifail buchol yn ddiogel, oherwydd ei wylltineb, neu oherwydd natur y dirwedd lle cedwir yr anifail hwnnw.

Cofnodion o brofion ar gyfer twbercwlosis

10.—(1) Pan fo prawf perthnasol wedi ei gyflawni ar anifail nad yw'n anifail buchol, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i arolygydd ddarllen canlyniadau'r prawf, roi i geidwad yr anifail hwnnw nad yw'n anifail buchol, gofnod ysgrifenedig o'r canlyniadau.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol y gwaherddir eu symud, neu y parheir i wahardd eu symud, o dan y Gorchymyn hwn yn dilyn y prawf.

(3) Rhaid i'r ceidwad—

(a) dal gafael ar y cofnod o ganlyniadau'r prawf am gyfnod o 3 blynedd a 60 diwrnod, sy'n cychwyn gyda'r diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddir y pigiad gyda thwbercwlin; a

(b) dangos y cofnod hwnnw pan fo arolygydd yn gofyn am ei weld.

Gwaharddiadau

11.—(1) Ni chaiff unrhyw berson frechu anifail nad yw'n anifail buchol yn erbyn twbercwlosis heb ganiatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru.

(2) Ni chaiff unrhyw berson roi triniaeth ar gyfer twbercwlosis i anifail nad yw'n anifail buchol heb ganiatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru.

(3) Ni chaiff unrhyw berson brofi anifail nad yw'n anifail buchol ar gyfer twbercwlosis ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru, a rhaid i berson y rhoddir caniatâd o'r fath iddo adrodd y canlyniadau ar unwaith wrth Weinidogion Cymru.

(4) Ni chaiff unrhyw berson ymyrryd â, neu rwystro, cyflawni neu ddarllen prawf perthnasol.

Ynysu a gwahardd symud anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol

12. Caiff arolygydd, at y diben o reoli neu atal lledaeniad twbercwlosis, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid buchol a gedwir yn y cyfryw fangreoedd a bennir yn yr hysbysiad—